Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Single Unified Safeguarding Review

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl

Siart llif ymgysylltu ar gyfer Cadeiryddion/Adolygwyr

Medi 2024

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)
Siart Llif Ymgysylltu ar gyfer Cadeiryddion/Adolygwyr

Mae'r Grŵp Cyfeirio Dioddefwyr a Theuluoedd wedi datblygu'r siart llif canlynol at ddibenion ymgysylltu â Thestun yr Adolygiad/Teulu i sicrhau eu bod wrth wraidd y broses Adolygu. Cydnabyddir y bydd amgylchiadau gwahanol ynghlwm wrth bob Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS) ac y bydd hyn yn golygu bod materion a gofynion gwahanol yn codi yn ei sgil. Felly, bwriedir i'r siart llif helpu'r broses o benderfynu a fydd ymgysylltiad yn digwydd a sut, trwy ystyried barn testun yr adolygiad/teulu yn hytrach na bod yn benodol.

Felly, gall y siart llif helpu gyda'r canlynol:

1. pryd y dylid ymgysylltu yn ystod proses ADUS;
2. y rheswm dros ymgysylltu ar yr adeg benodol honno; a
3. darparu dolenni i enghreifftiau o sut i ymgysylltu.

Ynghyd â'r ddogfen hon mae templed ar wahan y gellir ei ddefnyddio fel adnodd ychwanegol ar gyfer cael darlun o ymgysylltiad sydd ar waith ac sydd wedi'i gyflawni drwy nodi:

- pam yn y broses y cafodd ei gynnal;
- pwy gynhaliodd y broses a pham;
- pwy oedd y prif gyswllt;
- sut y cafodd ei wneud;
- pryd y cafodd ei wneud; a
- beth oedd canlyniad hyn.

Mae'n bwysig nodi bod y siart lif hon wedi'i datblygu'n benodol ar gyfer ymgysylltu â thestun yr adolygiad/y teulu. Cydnabyddir na fydd ymgysylltu â phrif unigolion* a'r cyflawnwr/cyflawnwr honedig o reidrwydd yn dilyn yr un patrwm ac y gallai diben ymgysylltu fod yn wahanol iawn am resymau gwahanol, er enghraifft dim ond unwaith yn y broses y bydd ffrind neu gyflogwr yn rhan ohono yn hytrach na thrwy gydol y broses.

Cyflawnwr/cyflawnwr honedig

Caiff ei gydnabod, os yw'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny, y dylid rhoi cyfle i gyflawnwyr/cyflawnwyr honedig gymryd rhan yn yr adolygiad.

Wrth ystyried ymgysylltu â'r cyflawnwr/cyflawnwr honedig, mae'n bwysig nodi y bydd rhaid i'r Cadeirydd/Adolygydd ymgysylltu â'r Uwch Swyddog Ymchwiliol yn yr heddlu perthnasol, i sicrhau nad yw unrhyw beth yn amharu ar y broses gyfiawnder troseddol. Dylid ystyried prosesau eraill sydd ar y gweill hefyd, gan gynnwys achosion sifil a gwybodaeth gan y llys teulu.

Mae'n bwysig hefyd bod yn ymwybodol o unrhyw risgiau i'r Cadeirydd/Adolygydd gan y cyflawnwr, i'w galluogi i baratoi'n effeithiol ar gyfer ymwneud â nhw.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cyn cynnwys unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r cyflawnwr/cyflawnwr honedig yn adroddiad ADUS, dylai'r Adolygydd ystyried beth y gellir ei ddysgu o'r wybodaeth hon i sicrhau nad yw'r ADUS yn ailadrodd naratif y cyflawnwr/cyflawnwr honedig heb ei wirio, a dylid ystyried y cwestiynau allweddol canlynol:

1. Sut bydd testun yr adolygiad/y teulu yn cael gwybod am gynlluniau i gynnwys y cyflawnwr/cyflawnwr honedig (gan gynnwys y rheswm dros gynnwys ei wybodaeth a'r diben) a sut fydd ei farn yn cael ei ystyried?
2. A allai cynnwys y cyflawnwr/cyflawnwr honedig a/neu eu teulu arwain at risg parhaus o drais i destun yr adolygiad, ei deulu, ffrindiau neu fel arall?
3. A allai'r cyflawnwr/cyflawnwr honedig geisio cyfiawnhau yr hyn a wnaeth drwy honni ei fod wedi'i wneud er mwyn cadw safonau diwylliannol a moesol, a sut y ceisir arbenigedd briodol gan ymarferydd sydd â gwybodaeth am y materion hyn?
4. A allai cynnwys y cyflawnwr/cyflawnwr honedig gael effaith ar ymchwiliad yr heddlu, o bosib? A sut bydd barn yr Uwch Swyddog Ymchwiliol yn cael ei geisio?
5. Os yw gorfodaeth wedi bod yn ffactor a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad, sut fydd hyn yn cael ei ystyried wrth siarad â'r cyflawnwr?
6. Sut gellir rhoi sicrwydd a hyder sy'n dangos y ceir dealltwriaeth o'r risgiau hyn?

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Siart Llif Ymgysylltu ADUS (Testun yr adolygiad/Teulu)

I ddefnyddio'r siart llif hwn, cliciwch ar yr adran yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdani a bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am yr adran honno.

Pan fyddwch wedi gorffen, cliciwch yn ôl i ddod yn ôl i'r dudalen hon.

	Prosesau Adolygu	Math o Weithgarwch Ymgysylltu
Cam 1	Cyfarfod panel cychwynnol	Cyswllt cychwynnol gyda thestun yr adolygiad/teulu
Cam 2	Cyfarfod/ydd panel	Cyfarfod cychwynnol; Gosod y sefyllfa a chreu perthynas
Cam 3	Cyfarfod/ydd panel	Cyfarfod dilynol
Cam 4	Cyfarfod/ydd panel Digwyddiad dysgu	Cyfarfod panel gyda thestun yr adolygiad/teulu (cyn y Digwyddiad Dysgu)
Cam 5	Cyfarfod/ydd panel i gytuno ar adroddiad drafft	Rhannu'r adroddiad gyda thestun yr adolygiad/teulu i'w ystyried
Cam 6	Cyflwyno'r adroddiad i'r Grŵp Adolygu Achos / Bwrdd Diogelu Cyhoeddi'r ADUS	Rhoi gwybod i destun yr adolygiad/teulu am y dyddiad cyhoeddi Rhoi cyfle i destun yr adolygiad/teulu i roi adborth ar y broses adolygu

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cam yn y broses

Cam Un – Cyfarfod Panel Adolygu

Nodi pwy yw Testun yr Adolygiad/Teulu a'r Cyswllt Cychwynnol

Pam

Er mwyn sicrhau bod y bobl berthnasol i gysylltu â nhw yn cael eu nodi, a'n bod wedi ystyried y dull mwyaf addas o gysylltu yn gyntaf.

Gallai cael hyn yn anghywir yn y cam cyswllt cychwynnol atal ymgysylltiad pellach.

Pwy

- Pwy fydd yn cael gwybod: I ddechrau, bydd testun yr adolygiad a/neu aelodau allweddol o'r teulu yn cael gwybod bod Adolygiad yn cael ei gynnal. Bydd faint o aelodau'r teulu fydd yn cael eu cynnwys yn amrywio ac yn cael ei bennu gan y Cadeirydd/Adolygydd a'r Panel Adolygu, felly mae angen dull hyblyg o weithredu. Gellir cysylltu â phrif unigolion ychydig yn ddiweddarach yn y broses pan ddaw gwybodaeth bellach i'r amlwg am bwy allai'r bobl hyn fod.
- Pwy fydd yn hysbysu: y Cadeirydd fydd yn rhoi gwybod bod Adolygiad yn digwydd, gan gyflwyno ei hun a'r Adolygwyr. Efallai mai Testun yr adolygiad neu'r aelod/aelodau o'r teulu yw'r cyflawnwyr honedig a bydd angen i'r panel drafod a fydd angen mynd i'r afael â nhw, a phryd. Efallai na fydd hyn yn cael ei gytuno yn y cyfarfod panel cyntaf, ac y bydd angen ailedrych ar y mater ar bwyntiau gwahanol gydol y broses.

Sut

- Dylid ystyried sawl opsiwn, gan adlewyrchu unrhyw wybodaeth sydd ar gael am destun yr adolygiad a/neu aelodau allweddol o'r teulu a'u cyfraniad a/neu eu dewisiadau cyfredol. Lle bo'n briodol, gall fod yn ddull cychwynnol o weithredu gyda rhywbeth arall i ddilyn (e.e. llythyr, ac yna galwad ffôn).

Er enghraifft:

  - Llythyr yn cael ei ddanfon â llaw gan weithiwr proffesiynol dibynadwy neu rywun proffesiynol sydd eisoes yn gysylltiedig â nhw, e.e. Eiriolwr, Swyddog Cyswllt Teulu, Gweithiwr Cymdeithasol.
  - Neges yn cael ei throsglwyddo gan weithiwr proffesiynol dibynadwy neu weithiwr proffesiynol sydd eisoes yn gysylltiedig â'r mater fel uchod, a'i dilyn gan lythyr.
  - Galwad ffôn neu e-bost.
- Llythyr drwy'r post (Lle nad Saesneg yw'r iaith gyntaf, bydd angen cyfleusterau cyfieithu ar gyfer yr iaith gyntaf a bydd angen ystyried materion hygyrchedd ar gyfer rhai nad ydynt yn gallu darllen o bosibl). Dylai deunydd Hawdd ei Ddeall fod ar gael hefyd, yn enwedig os yw'n cynnwys pobl ifanc.

Pryd

Ar ôl cyfarfod cyntaf y panel i sefydlu'r ffeithiau cychwynnol am gefndir, cyd-destun a deinameg y teulu, oni bai bod y panel yn cytuno ar yr angen i oedi, er enghraifft oherwydd cyngor gan yr Uwch Swyddog Ymchwiliol – os felly, nodir y cyfle cynharaf i ymgysylltu. (Efallai y bydd gwahaniaethau bach o ran y cam hysbysu cynnar (Adolygiad Dynladdiad Domestig)).

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cliciwch i fynd yn ôl i'r siart llif

Beth

Bydd y llythyr neu'r neges yn amlinellu bod ADUS yn mynd i gael ei gynnal, y byddai'r adolygwyr yn hoffi cwrdd â nhw i egluro pwrpas a phroses yr ADUS a sut y gallai testun yr adolygiad/teulu fod yn rhan ohono, gan gynnwys clywed eu barn. Mewn sefyllfa pan fo ymchwiliad troseddol yn parhau, efallai y bydd angen gohirio'r broses yn dilyn hysbysiad a rhoi gwybod i destun yr adolygiad/aelodau'r teulu am hyn. Dylid hefyd ystyried unrhyw brosesau parhaus fel cwêst, achos sifil neu achos llys teuluol a all gael effaith ar y cyswllt.

Lle

Yn y neges, amlinellwch ystyriaeth o'u hoff ddewis mewn perthynas â chyfarfod wyneb yn wyneb.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cam yn y broses	**Cam Dau – Cyfarfod(ydd) Panel** **Cyfarfod rhagarweiniol:** **Gosod yr olygfa a datblygu perthynas**
Pam	Er mwyn sicrhau bod testun yr adolygiad/aelodau'r teulu yn deall y broses ADUS, ei gylch gwaith a'u rôl nhw fel rhan ohono. Mae'n bwysig rheoli'r disgwyliadau o'r cychwyn cyntaf.

Pwy

- Bydd yr Adolygwyr a/neu'r Cadeirydd yn cyfarfod â thestun yr adolygiad/aelodau'r teulu. Efallai yr hoffai testun yr adolygiad/aelodau'r teulu gael rhywun arall yn gwmni iddynt yn y cyfarfod hwn – dylid rhoi gwybod iddynt am yr opsiwn hwn yn y llythyr hysbysu ac wrth wneud trefniadau ar gyfer y cyfarfod. Gall fod yn unigolyn dibynadwy wnaeth helpu gyda'r hysbysiad neu rywun arall e.e. Eiriolwr, Swyddog Cyswllt Teulu neu Weithiwr Cymdeithasol (dylid osgoi cynrychiolaeth gyfreithiol i atal y broses rhag mynd yn wrthwynebol).
- Os yw'r teulu wedi chwalu neu os oes gan aelodau unigol o'r teulu anghenion a / neu ddisgwyliadau gwahanol, efallai y bydd angen sawl cyfarfod gydag unigolion gwahanol – dylai'r adolygwyr/Cadeirydd fod yn agored ac yn onest o ran pwy arall fyddan nhw'n cyfarfod â hwy fel rhan o'r adolygiad.

Sut

Rhaid i'r Adolygwyr/Cadeirydd fynychu'r cyfarfod hwn yn rhinwedd ei rôl fel Cadeirydd/Adolygydd annibynnol. Eu rôl yw esbonio pwrpas a phroses yr ADUS a sut y gallai testun yr adolygiad/teulu gymryd rhan. Rhaid mynd ati i ymdrin â'r cyfarfod mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma.

Pryd

Cyn y digwyddiad dysgu er mwyn cyflwyno barn a safbwyntiau testun yr adolygiad/teulu i ymarferwyr yn y digwyddiad.

Beth

Bydd yr Adolygwyr/Cadeirydd yn amlinellu'r broses ADUS, yn esbonio sut y gallai'r teulu gymryd rhan (gan gynnwys eu gallu i ofyn cwestiynau i'r Panel Adolygu), gosod amseroedd cysylltu, a rhoi fersiwn Hawdd ei Deall o'r daflen ADUS i destun yr adolygiad/teulu er mwyn esbonio'r broses. Cynnig cyfeirio at wasanaethau cymorth eiriolaeth arbenigol i'r rhai nad oes ganddynt eiriolwr dynodedig a darparu pwynt cyswllt penodol a'u manylion cyswllt.

Lle

Dylai testun yr adolygiad/aelodau'r teulu gael arwain ar hyn. Efallai y byddai'n well ganddynt i chi ymweld â nhw gartref (gan ystyried cynnal asesiad risg i benderfynu a yw unrhyw asiantaeth yn gwybod am unrhyw risgiau posibl ynghlwm wrth destun yr adolygiad neu'r teulu). Neu, trefnwch gyfarfod niwtral nad yw testun yr adolygiad/teulu yn ei gysylltu â'r digwyddiad a achosodd yr adolygiad.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cam yn y broses	**Cam Tri – Cyfarfod Cadeirydd/Adolygydd** **Cyswllt dilynol/cysylltu â thestun yr adolygiad/teulu i ateb cwestiynau a chlywed eu barn**
Pam	Sicrhau bod profiad testun yr adolygiad/teulu yn llywio'r dysgu, ac er mwyn helpu'r panel i ystyried testun yr Adolygiad mewn ffordd fwy holistig.

Pwy

Bydd yr Adolygwyr/Cadeirydd yn cysylltu. Efallai yr hoffai testun yr adolygiad/ aelodau'r teulu gael cwmni rhywun arall fel cefnogaeth yn y cyfarfod hwn.

Sut

Gellid gwneud hyn drwy e-bost neu dros y ffôn. Efallai na fydd angen ymweliad wyneb yn wyneb, ond dylid dilyn arweiniad testun yr adolygiad/ teulu ar hyn.

Pryd

Mae angen rhoi digon o amser i destun yr adolygiad/teulu i ystyried hyn – a thestun yr adolygiad/teulu ddylai arwain ar y mater.

Beth

Yn ystod y cyswllt hwn, bydd y teulu'n rhannu eu barn ac unrhyw gwestiynau yr hoffent i'r adolygydd eu hystyried. Os yw'r teulu'n dymuno cyfarfod a chyflwyno eu cwestiynau i'r Panel Adolygu, bydd y Cadeirydd yn egluro beth allai'r teulu ei ddisgwyl.

Lle

Os ydych chi'n cyfarfod wyneb yn wyneb, dylai'r teulu benderfynu ar y lleoliad a dylech ystyried asesiad risg (i weld a yw unrhyw asiantaeth yn gwybod am unrhyw risgiau posibl yn ymwneud â thestun yr adolygiad/teulu).

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cam yn y broses	**Cam Pedwar – Cyfarfod(ydd) Panel** **Cyfarfod Panel gyda Thestun yr Adolygiad/Teulu (os yw'n addas ac os yw'r teulu'n dymuno gwneud hynny)**
Pam	Sicrhau bod profiad testun yr adolygiad/teulu yn llywio'r dysgu, ac er mwyn helpu'r panel i ystyried testun yr Adolygiad mewn ffordd fwy holistig.

Pwy

Dylid cynnig cyfle i destun yr adolygiad/teulu gyfarfod naill ai pob aelod neu rai o'r Panel Adolygu, yn ogystal â'r Cadeirydd/Adolygydd(wyr). Yn y cyfarfod hwn, efallai bydd testun yr adolygiad/aelodau o'r teulu yn dymuno dod â rhywun i'w cefnogi.

Sut

Dylid cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb, ond efallai y byddai'n well gan y teulu ddewis dull arall e.e. Teams.

Pryd

Cyn y Digwyddiad Dysgu er mwyn cyflwyno canlyniad y cyfarfod yn ôl i ymarferwyr yn y digwyddiad.

Beth

Bydd y cyfarfod yn cael ei hwyluso gan y Cadeirydd a fydd yn egluro pwrpas a chyd-destun y cyfarfod; bydd aelodau'r panel yn cyflwyno eu hunain a bydd cyfle i destun yr adolygiad/aelodau'r teulu rannu barn a chael ateb i'w cwestiynau.

Lle

Dylid dod o hyd i leoliad niwtral nad yw testun yr adolygiad/teulu yn ei gysylltu â'r digwyddiad a achosodd yr adolygiad yn y lle cyntaf.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cliciwch i fynd yn ôl i'r siart llif

Cam yn y broses	**Cam Pump – Adroddiad Drafft Terfynol** **Cyflwyno copi i Destun yr Adolygiad/Teulu**
Pam	Er mwyn ystyried yr adroddiad drafft a chaniatáu i destun yr adolygiad/teulu fyfyrio a mynegi barn, gwirio am unrhyw wallau a nodi a ydynt yn cytuno â'r canfyddiadau – os nad ydynt yn cytuno â'r canfyddiadau, bydd angen nodi'r rhesymau am hynny.

Pwy

Bydd yr Adolygwyr a/neu'r Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod hwn gyda thestun yr adolygiad/aelodau'r teulu. Efallai y bydd angen cynnal cyfarfodydd ar wahân yn dibynnu ar gyd-destun/deinameg y teulu. Efallai yr hoffen nhw ddod â rhywun gyda nhw i'w cefnogi. Rhaid i'r Adolygydd/Cadeirydd egluro y bydd angen i destun yr adolygiad/teulu neilltuo cryn dipyn o oriau i'r broses hon er mwyn sicrhau digon o amser i gofnodi eu barn yn drylwyr.

Sut

Lle bynnag y bo modd, dylid sicrhau bod gan destun yr adolygiad/aelodau'r teulu yr amser a'r lle i fwrw golwg ar yr adroddiad.

Er enghraifft, mae angen ystyried a oes modd darparu'r adroddiad ymlaen llaw i destun yr adolygiad/teulu neu adael iddynt fynd â'r adroddiad gyda nhw (os felly, mae'n bwysig atgoffa unigolion o'u rhwymedigaeth gyfreithiol i brosesu ond peidio â rhannu'r adroddiad cyn iddo gael ei gyhoeddi).

Hefyd, mae angen ystyried iaith a hygyrchedd (e.e. a oes angen cyfieithu; os mai plentyn neu berson ifanc yw testun yr adolygiad, a oes angen i'r cynnwys fod yn addas i'w hoedran; a oes angen ffont mwy?).

Pryd

Yn dilyn cytundeb ar yr adroddiad gan y panel, ond cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu.

Beth

Bydd cyfle i destun yr adolygiad/teulu ystyried yr adroddiad drafft.

Lle

Os nad yw testun yr adolygiad/teulu'n mynd â'r adroddiad gyda nhw, bydd angen lle cyfforddus arnyn nhw i ystyried yr adroddiad. Dylid rhoi digon o amser penodol iddyn nhw ddarllen a deall yr adroddiad, a rhoi adborth i'r Adolygwyr/Cadeirydd.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

Cam yn y broses	**Cam Chwech – Cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Achosion a'r Bwrdd Diogelu** **Rhoi gwybod i Destun yr Adolygiad/Teulu/Prif Unigolion am gyhoeddi'r adroddiad**
Pam	Sicrhau bod gan destun yr adolygiad/teulu gefnogaeth briodol ar waith pan gyhoeddir yr Adroddiad oherwydd diddordeb posibl y wasg a'r posibilrwydd o drawma pellach.

Pwy

Yr Adolygwyr a/neu'r Cadeirydd.

Sut

I'w benderfynu gan y teulu – e-bost/llythyr/galwad ffôn/ymweliad wyneb yn wyneb/neges drwy unigolyn y gellir ymddiried ynddo/gweithiwr proffesiynol dibynadwy.

Pryd

Unwaith y cytunir ar y dyddiad cyhoeddi. Ystyried (mewn ymgynghoriad â'r teulu) dyddiadau i'w hosgoi h.y. pen-blwydd.

Beth

Bydd testun yr adolygiad/teulu yn cael gwybod bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ac yn derbyn copi o'r adroddiad terfynol. Byddant hefyd yn cael cyfle i roi adborth ar eu hymgysylltiad yn y broses adolygu gan ddefnyddio'r Ffurflen ar gyfer Mynegi Barn ar yr Adolygiad.

Lle

I'w benderfynu gan destun yr adolygiad/teulu.

* Gall Prif Unigolyn olygu'r canlynol, er nad yw'n gyfyngedig iddynt: ffrindiau, cynrychiolwyr cymunedol/gwasanaethau cymorth, cymdogion, cydweithwyr, arweinwyr ffydd ac arweinwyr cymunedau neu gyflogwyr

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49845, ISBN digidol 978-1-83625-913-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cliciwch i fynd yn ôl i'r siart llif